GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Taflen Ffeithiau Hepatitis C

Cael eich profi. Cael triniaeth. Gwella.

HEP C U Later

## Beth yw hepatitis C?

Mae hepatitis C yn feirws a gludir yn y gwaed. Mae'n cael ei drosglwyddo pan fydd gwaed rhywun â hepatitis C yn mynd i mewn i lif gwaed rhywun arall. Os na chaiff y feirws ei drin, gall achosi niwed i'r afu a chanser yr afu. Mae triniaeth syml ar gael.

Ewch i'r wefan i gael rhagor o wybodaeth am y ffactorau risg ar gyfer hepatitis C: **icc.gig.cymru/hep-c/**

## Ffactorau risg:

Mae nifer o ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hepatitis C. Efallai y bydd angen prawf ar unigolyn, hyd yn oed os digwyddodd y canlynol gryn amser yn ôl:

- Cael rhyw heb ddiogelwch gyda rhywun a allai fod wedi cael hepatitis C, yn enwedig os oedd cyfleoedd i ddod i gyswllt gwaed i waed.
- Cael triniaethau harddwch gan ddefnyddio nodwyddau nad oeddent o bosibl wedi'u sterileiddio, yn cynnwys colur lled-barhaol.
- Cael tyllu'r corff, tatŵ, eillio rasel hir neu driniaeth aciwbigo gan ddefnyddio offer nad oedd efallai wedi'i sterileiddio.
- Cael trallwysiad gwaed cyn 1996.
- Cael triniaeth ddeintyddol neu feddygol dramor mewn amodau aflan.
- Rhannu nodwyddau neu offer arall a ddefnyddir i chwistrellu a sniffian cyffuriau, yn cynnwys pibellau crac.

## Symptomau:

**Nid yw pawb yn profi symptomau haint hepatitis C cynnar.** Gellir camgymryd symptomau fel salwch arall.

- Teimlo'n gyfoglyd/chwydu
- Blinder
- Diffyg archwaeth
- Poen yn yr abdomen
- Tymheredd uchel (dros 38C)
- Clefyd melyn (melynu'r llygaid a'r croen)

## Profi:

Mae profi'n hawdd ac mae gwahanol ffyrdd o gael eich profi. Os yw unigolyn wedi dod i gysylltiad â'r feirws hepatitis C a bod y feirws yn cael ei drosglwyddo iddo, bydd yn datblygu gwrthgyrff i'r feirws hepatitis C. Nid yw gwrthgyrff yn ymddangos yn y gwaed yn syth, gall gymryd 3 mis (ac weithiau 6 mis) cyn i brawf ganfod gwrthgyrff. Pan ganfyddir gwrthgyrff yn y gwaed, mae'r canlyniad yn cael ei nodi fel positif am wrthgyrff hepatitis C. Ar ôl dod i gysylltiad posibl â'r feirws, mae angen prawf ar ôl 3 mis ac eto 3 mis ar ôl hynny. Os bydd unigolyn yn parhau i fod mewn perygl o gael hepatitis C, mae'n arfer da iddo gael prawf bob 12 mis. Os bydd unigolyn yn cael prawf positif am wrthgyrff hepatitis C, efallai y bydd angen prawf ac ymchwiliad pellach cyn iddo ddechrau triniaeth.

## Ailheintiad:

Dylid profi am hepatitis C dri mis ar ôl y cysylltiad posibl ac eto dri mis yn ddiweddarach. Mae profion blynyddol yn cael eu hargymell os bydd unigolyn yn parhau i fod mewn perygl. Efallai y bydd angen profion pellach ar unigolion sy'n cael canlyniad positif.

# Taflen Ffeithiau Hepatitis C

Cael eich profi. Cael triniaeth. Gwella.

HEP C U Later

## Mathau o brofion:




- **Prawf Smotyn Gwaed Sych (DBST) =** prawf gwaed pigiad bys sy'n cael ei gasglu ar gerdyn a'i brofi yn y labordy – opsiwn da mewn lleoliadau lle nad yw staff wedi'u hyfforddi i gymryd gwaed o wythïen neu ar gyfer pobl â mynediad gwythiennol gwael. Profion ar gyfer Hepatitis B, Hepatitis C a HIV. (Yn chwilio am wrthgyrff/ cysylltiad â feirws).
- **Sampl gwaed gwythiennol =** sampl gwaed a gymerir o wythïen. Gall y prawf hwn brofi am gysylltiad blaenorol â hepatitis C, haint presennol, a heintiau eraill a gludir yn y gwaed.
- **Prawf llif unffordd =** swab ceg i ganfod cysylltiad â'r feirws hepatitis C mewn 20 munud – gwych i bobl sydd ddim yn hoff o nodwyddau. (ddim ar gael ym mhob gwasanaeth)
- **Prawf gwaed micro-gapilari /Micro-cap (yn defnyddio Cepheid GeneXpert) =** prawf gwaed pigiad bys sy'n casglu ychydig ddiferion o waed mewn tiwb bach sydd yna'n cael ei roi mewn peiriant. Yn profi am haint hepatitis C gweithredol/ hepatitis C RNA mewn 60 munud. (ddim ar gael ym mhob gwasanaeth)

## Triniaeth:

Gellir trin hepatitis C gyda thabledi o'r enw Cyffuriau Gwrthfeirol sy'n Gweithredu'n Uniongyrchol (DAAs).

Maent yn effeithiol mewn 90-95% o achosion (fel arfer un dos o dabledi'r dydd am 8-12 wythnos). Mae triniaeth ar gael i bawb.

Deuddeg wythnos ar ôl i unigolyn orffen ei driniaeth, bydd prawf arall yn cael ei wneud i wirio a yw'r feirws wedi'i ddileu o'i system. Mae'r prawf yn chwilio am haint hepatitis C gweithredol/RNA hepatitis C.



## Beth mae canlyniadau'r profion yn ei olygu:

Mae tua 25% o bobl sy'n cael haint hepatitis C yn cael gwared ar y feirws yn naturiol yn ystod y 6 mis cyntaf; fodd bynnag, mae 75% yn datblygu hepatitis C cronig.

Clirio naturiol (spontaneous clearance) yw pan fo system imiwnedd y corff yn ymladd y feirws yn awtomatig. Cynigir triniaeth gan gynnwys i bobl sydd wedi cael y feirws am lai na 6 mis.

Efallai y bydd rhai achosion pan allai unigolyn fod â'r feirws hepatitis C ond nad yw gwrthgyrff hepatitis C yn cael eu canfod mewn rhai mathau o brofion. Os yw unigolyn wedi cael triniaeth lwyddiannus, neu wedi clirio'r feirws yn naturiol, nid ydyw wedi'i amddiffyn rhag cael ei heintio os bydd yn dod i gysylltiad â'r feirws eto - mae'n bwysig lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws eto. Argymhellir gwneud y profion eto o leiaf bob 12 mis.

Prawf gwrthgyrff Hep C negatif = nid yw'r unigolyn wedi dod i gysylltiad â'r feirws hepatitis C

Prawf gwrthgyrff Hep C positif + Hep C RNA negatif = mae'r unigolyn wedi dod i gysylltiad â hepatitis C yn flaenorol, ond nid oes ganddo haint gweithredol/presennol

Prawf gwrthgyrff Hep C positif + Hep C RNA positif = mae gan yr unigolyn feirws hepatitis C gweithredol/presennol

## Dileu Hepatitis C:

Mae nod byd-eang o ddileu hepatitis erbyn 2030. Gallwch ddysgu rhagor am hepatitis C drwy ymweld â gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru - icc.gig.cymru/hep-c/